# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 6

ASEDAU TREFTADAETH ERAILL A CHOFNODION

*Cofnodion amgylchedd hanesyddol*

PROSPECTIVE

### 195 Mynediad at gofnodion amgylchedd hanesyddol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi pob cofnod amgylchedd hanesyddol ar gael i'r cyhoedd edrych arno, a

(b) rhoi ar gael i berson sy'n dymuno edrych ar gofnod amgylchedd hanesyddol gyngor ar adalw a deall gwybodaeth sydd wedi ei darparu yn y cofnod neu y ceir mynediad ati drwy'r cofnod, neu gynhorthwy i wneud hynny.

(2) Os yw—

(a) person yn gofyn am gopi o ran o gofnod amgylchedd hanesyddol neu fanylion y ceir mynediad atynt drwy gofnod o'r fath, a

(b) Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cais yn rhesymol,

rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu'r copi hwnnw neu'r manylion hynny i'r person.

(3) Os yw—

(a) person yn gofyn i wybodaeth sydd wedi ei darparu mewn cofnod amgylchedd hanesyddol neu y ceir mynediad ati drwy gofnod o'r fath gael ei hadalw, a

(b) Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cais yn rhesymol,

rhaid i Weinidogion Cymru lunio dogfen ar gyfer y person sy'n cynnwys yr wybodaeth.

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 195. (See end of Document for details)*

(4) Wrth asesu a yw cais yn rhesymol at ddibenion is-adran (2) neu (3), mae'r materion y caiff Gweinidogion Cymru eu hystyried yn cynnwys unrhyw geisiadau blaenorol a wnaed gan y person o dan sylw neu ar ei ran.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru godi ffi—

(a) am ddarparu cyngor neu gynhorthwy o dan is-adran (1)(b);

(b) am ddarparu copi neu fanylion o dan is-adran (2);

(c) am lunio dogfen o dan is-adran (3).

(6) Rhaid i ffi gael ei chyfrifo gan ystyried y gost o ddarparu'r gwasanaeth y mae'r ffi yn ymwneud ag ef.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 195 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 195.